ADRODDIAD DIWEDD YMWELIAD

Rhif Grŵp: 170

Thema: Amcanion Addysgol 2010: Addysg a Hyfforddiant – cefnogi dinasyddiaeth weithredol, cyfleoedd cyfartal a chydlyniad cymdeithasol

Teitl: Integreiddiad Rhyngddiwylliannol a rôl hyfforddwyr

Dinas / Gwlad: Madrid, Sbaen

Dyddiadau: 9-12 Mehefin 2008

Gohebydd y Grŵp: Elizabeth Thomas

Disgrifiad y Cwrs: "Mae gan wledydd sy'n derbyn mewnfudwyr angen gynyddol i gynnwys adnoddau ac offer pedagogaidd arbenigol o fewn eu systemau addysg a hyfforddiant. Gall yr offer hyn wedyn fod o gymorth i bobl, ac yn enwedig pobl ifanc, i fod yn deimladwy i amrywiaeth ddiwylliannol . Gall canolfannau addysgol ac athrawon, mewn cydweithrediad â sectorau eraill, fod yn effeithiol iawn wrth hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, osgoi camwahaniaethu, a chreu sylfeini ar gyfer gwell integreiddiad yn y gwledydd newydd."

Trefnwyd yr ymweliad astudio i Madrid gan Wasanaeth Cyflogaeth Cyhoeddus y Wladwriaeth (SPEE). Roedd yr ymweliad yn gyfle i gyfranogwyr drafod materion yn ymwneud â mewnfudwyr a'u hintegreiddiad, ac i rannu profiadau ac arferion da am rôl addysg a hyfforddiant wrth gefnogi hyn. Cafwyd disgrifiadau o'r sefyllfa yn Sbaen a bu cyfle i elwa o brofiadau amrywiaeth o fudiadau sy'n delio â, ac sy'n adweithio'n uniongyrchol i, fewnfudiad ac integreiddiad.

Roedd y cyfranogwyr a ddaeth i Madrid i drafod y materion hyn yn hanu o ddeg gwlad Ewropeaidd. Roeddent yn cynrychioli awdurdodau cyhoeddus (cenedlaethol, rhanbarthol a lleol) neu'n benaethiaid ac athrawon o ganolfannau a sefydliadau addysg a hyfforddiant.

Ch-Dd: Lidia Merlo, Borghild Drejer, Simonetta Leonardi, Kurt-Olov Sjöström, Liz Thomas, Elina Kumpina, Inna Pusikova, Malgorzata Sowicka, (Prifathrawes) Metka Malčič, Carolina Borrajo Villaverde (SPEE), Katalin Széles, Päivi Mäki, Malgorzata Wrotkowska

ARGRAFFIADAU CYFFREDINOL

Roedd rhaglen y gweithgareddau a drefnwyd gan y mudiad cartref yn adlewyrchu'r disgrifiad yn y catalog. Cafwyd cyflwyniadau ac ymweliadau a oedd yn egluro'r modd y mae Sbaen yn ymdrin â'r materion hyn. Mae profiad Sbaen fel "y fynedfa i Ewrop" wedi golygu ei bod yn arweinydd ym maes integreiddiad rhyngddiwylliannol. Dylai'r heriau a'r profiadau sydd gan Sbaen olygu bod ganddi stôr o syniadau y gallai gwledydd eraill eu mabwysiadu a'u datblygu. Mae profiad Sbaen fel gwlad sydd wedi profi mewnfudiad ac allfudiad ers canrifoedd yn unigryw. Mae'r wlad bellach yn derbyn nifer fawr o fewnfudwyr, ac mae'r strategaethau sydd wedi eu datblygu yno yn berthnasol i wledydd Ewropeaidd eraill sy'n derbyn, neu sy'n paratoi i dderbyn, nifer enfawr o fewnfudwyr.

Roedd y cyflwyniadau gan y mudiad cartref yn ddefnyddiol er mwyn deall hanes mewnfudo yn Sbaen. Cafwyd ymweliadau ag ystod o fudiadau (swyddfa llywodraeth, ysgol, busnes, NGO) er mwyn ategu negeseuon y cyflwyniadau ac i roi'r hyn a weithredir heddiw o fewn cyd-destun hanesyddol. Roedd strwythur y diwrnod cyntaf braidd yn drwm. Defnyddiwyd y diwrnod i osod a disgrifio'r cyd-destun, ac efallai y gellid bod wedi cael mwy o gyfle i drafod fel grŵp. Roedd nifer o'r cyflwyniadau yn Sbaeneg, ac er bod darpariaeth cyfieithu arbennig ar gael yn aml cafwyd araethiau hir yn y Sbaeneg ac yna'r cyfieithiad i ddilyn. Roedd y cyfranogwyr wedi disgwyl mai Saesneg fyddai prif iaith gwaith yr ymweliad. Roedd hyd y dydd a'r areithiau hirfaith weithiau'n ei gwneud hi'n anodd i ganolbwyntio a ffocysu'n glir ar y materion dan sylw.

Cafwyd ymweliadau ag ystod o sefydliadau (swyddfa'r Llywodraeth, Insituto de la Mujer – Sefydliad ar gyfer Merched; ysgol, Real Colegio de Santa Isabel La Asuncion; busnes sector preifat, Grupo Vips; NGO, la Cruz Roja – y Groes Goch; a mudiad hyfforddi cenedlaethol, La Fundacion Laboral para la Construccion – y sefydliad llafur ar gyfer adeiladwaith. Rhoddodd yr ymweliadau hyn gyfle i gyfranogwyr weld enghreifftiau ymarferol a pherthnasol o integreiddiad rhyngddiwylliannol o wahanol safbwyntiau. Roedd cyflwyniadau'r cyfranogwyr hefyd yn rhoi cyfle i bawb gael mewnwelediad i wahanol ffyrdd o ymdrin â thestun, a'r modd yr oedd gwahanol awdurdodau lleol a chenedlaethol dros Ewrop yn ymateb i'r materion dan sylw.

Pan ofynnwyd iddynt pa mor fodlon yr oeddent â'r ymweliad astudio, dywedodd 6 eu bod yn 'fodlon iawn', a dywedodd 4 eu bod yn 'fodlon'. Wrth ymateb i'r cwestiwn 'i ba raddau wnaeth rhaglen yr ymweliad gyrraedd eich disgwyliadau? Oedd yr agenda yn adlewyrchu'r disgrifiad yn y catalog?', roedd 7 yn 'fodlon iawn' ac roedd 3 yn 'fodlon'. Pan ofynnwyd 'a wnaeth y cyflwyniadau a'r ymweliadau eich galluogi i gael darlun clir o ymdriniaeth y thema yn y wlad?', roedd 7 yn 'fodlon iawn' ac roedd 3 yn 'fodlon'.

CYNNWYS YR YMWELIAD

Roedd cynnwys yr ymweliad yn berthnasol i ddiddordebau aelodau'r grŵp. Er bod y cyfrangowyr yn hanu o amrywiaeth o gefndiroedd a sefyllfaoedd gwaith, roedd rhywbeth at ddant pawb. Roedd y cyfrangogwyr i gyd o'r farn bod rhai elfennau o bob rhan o'r ymweliad yn berthnasol iddynt, er nad oedd bob amser yn debyg i'w sefyllfa unigol hwy. Roedd y cyflwyniad

o'r wybodaeth gefndirol am hanes mewnfudo yn Sbaen, a'r disgrifiadau o'r arfer dda mewn sefydliadau, cwmnïau ac ysgolion yn Sbaen yn dda. Yn ystod yr ymweliad, cafodd y cyfranogwyr gyfle i glywed am enghreifftiau o arfer dda ym maes integreiddiad rhyngddiwylliannol yn Sbaen ac yng ngwledydd aelodau'r grŵp. Fe alluogodd hyn i'r cyfranogwyr ddatblygu 'golwg eang' o'r sefyllfa yn Sbaen a gweld y materion dan sylw o sawl safbwynt. Er hynny, teimlwyd y byddai mwy o bwyslais ar 'addysg' a chyfle i weld/clywed *sut* roedd gwahanol actorion ym ymdrin â'r materion wedi bod o fantais. Roedd gormod o theori a gormod o ddisgrifiadau o arfer dda, ac yn lle hynny fe fyddai wedi bod yn ddefnyddiol i *weld* a *phrofi* yr arfer yn uniongyrchol. Er enghraifft, fe soniwyd wrthym am becyn offer oedd yn cael ei ddatblygu yn y Sefydliad i Ferched, ond ni chawsom ei weld na defnyddio'r adnoddau.

Roedd yr anghydbwysedd rhwng theori ac ymarfer yn arbennig o amlwg yn ystod yr ymweliad â chanolfan hyfforddiant y Groes Goch. Roedd trefniadau i'r grŵp ymuno â chriw o fewnfudwyr oedd yn derbyn hyfforddiant a chael cyfle i siarad â nhw a rhannu eu profiadau . Yn anffodus, oherwydd cyflwyniadau hirfaith a oedd ar brydiau'n ailadroddus (ac a oedd yn hirach fyth oherwydd yr angen am gyfieithu), nid oedd amser i gwrdd â'r mewnfudwyr, ac fe ddilëwyd y rhan hon o'r ymweliad.

Roedd rhai themâu a syniadau cyffredin a leisiwyd gan yr holl fudiadau a ymwelwyd â hwy yn Sbaen, ac roedd y rhain hefyd yn gyfarwydd i'r cyfranogwyr. Y rhai mwyaf cyffredin oedd:

- Iaith: roedd trochi yn iaith y wlad fabwysiedig yn hanfodol er mwyn integreiddio. Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu'n gryf yn ymdriniaeth y 'dosbarth cyswllt' yn Real Colegio de Santa Isabel La Asuncion, ble roedd disgyblion yn derbyn cymorth i fod yn rhugl yn Sbaeneg cyn gwneud unrhyw weithgareddau addysgol eraill. Roedd hyn hefyd yn thema gyfarwydd yng ngwaith y cyfranogwyr. Fodd bynnag, dim ond cam cyntaf yw hwn ac nid dyma'r ateb ar gyfer integreiddio.
- Offer croesawu: mae'n rhaid i wledydd ddysgu croesawu mewnfudwyr a'u cynorthwyo i ddatrys y problemau maent yn eu wynebu pan yn symud i wlad newydd yn ogystal â cheisio canfod gwaith.
- Pwysigrwydd y farchnad lafur: mae'n rhaid i fewnfudwyr ganfod gwaith os ydynt am integreiddio'n llwyddiannus. Mynegwyd pryder bod gan fudiadau megis Grupo Vips a'r Groes Goch ddisgwyliadau isel iawn o weithlu'r mewnfudwyr, a'u bod yn eu defnyddio ar gyfer swyddi gwasaidd yn hytrach na chynnig cyflogaeth fyddai'n eu galluogi i gyflawni eu potensial ac integreiddio'n llwyddiannus. (Roedd gwaith marchnata Grupo Vips yn ymddangos yn dda, ond yn weithredol roedd yn ymddangos fel ecsploetiaeth.) Roedd hyn yn cyferbynnu gydag ymdriniaeth Fundacion Laboral para la Construccion, oedd yn cydnabod bod llawer o'r gweithwyr oedd wedi mewnfudo yn fwy addysgedig na'u cydweithwyr o Sbaen. Mae'r Fundacion wedi datblygu 'Cerdyn Hyfforddiant Proffesiynol' (CHP) sy'n rhestru cymwysterau, hyfforddiant, profiadau gwaith ayyb gan alluogi iddynt gael statws cyflogaeth gyfartal â gweithwyr brodorol.
- Merched: mae merched sy'n mewnfudo yn aml yn wynebu camwahaniaeth ddwbl, ac angen cymorth ychwanegol i'w helpu i ganfod gwaith, i edrych ar ôl eu plant, ac i integreiddio i'r gymdeithas newydd.
- Teuluoedd: mae angen cymorth ar deuluoedd, yn enwedig os oes ganddynt blant mewn addysg, fel bod pawb yn gallu dysgu a datblygu yn y wlad newydd.

Teimlodd y cyfranogwyr y dylai bod ymchwil ac astudiaeth bellach i'r materion a gododd, yn enwedig:

- Sut mae delio ac ymdrin â'r pwnc, a sut y gellir datrys problemau? Mae'n bwysig dysgu wrth wneud, felly byddai'n ddefnyddiol archwilio sut mae mudiadau'n ymdrin â'r materion dan sylw wrth edrych ar enghreifftiau o'r byd go iawn, astudiaethau achos ayyb, i wneud y pwnc yn fwy real yn hytrach na sgwrs sy'n canolbwyntio ar 'dyma beth rydym ni'n ei wneud'. Byddai cyfweliadau a deialog gyda phobl sy'n rhan o'r sefyllfa yn werthfawr iawn, er enghraifft sut mae plant yn teimlo wrth gael eu symud o'u cartrefi i wlad newydd? Beth yw'r problemau maent yn eu wynebu? A ydynt yn addasu go iawn?

- Beth yw rôl a thargedau'r Wladwriaeth? A oes yna hierarchaeth o angen? Pwy ddylai ariannu gweithgareddau i annog integreiddio? Sut mae'r sefydliadau sy'n gweithio yn y maes hwn yn cydblethu?
- Os yw symudiad yn cael ei annog gan bolisi Ewropeaidd, pwy ddylai fod yn cynnig help a chefnogaeth i fewnfudwyr? A yw'r diwydiant adeiladu (ble mae symudiad wedi bod yn amlwg erioed) yn gallu darparu gwersi i weddill cymdeithas? A yw'r cerdyn CHP yn drosglwyddadwy i fannau eraill o'r farchnad lafur drwy gydol Ewrop?
- Sut i wneud pethau – YMARFER NID THEORI. Fe *ddywedwyd* wrth y grŵp am arfer dda mewn mudiadau yn Sbaen, ond ni chawsom gyfle i'w weld yn cael ei weithredu. Pan aethom i ymweld â'r ysgol a'r dosbarthiadau, dywedwyd wrthym bod y disgyblion wedi dysgu Sbaeneg mewn cyfnod byr iawn. Ond ni chawsom weld sut yr oeddent yn cael eu dysgu, pa fethodolegau oedd yn cael eu defnyddio na'r gwaith roeddent wedi ei gyflawni.

Mae systemau addysg a hyfforddiant (a llywodraethau, busnesau ac NGOs) drwy gydol Ewrop eisoes yn ymdrin â nifer o'r materion a adnabuwyd yn ystod yr ymweliad. Roedd modd i'r cyfranogwyr rannu peth o'r wybodaeth yma â'i gilydd drwy roi cyflwyniadau ar y sefyllfa yn eu gwledydd a'u gweithleoedd eu hunain. Fodd bynnag, nid oedd digon o gyfle i rannu'r wybodaeth i gyd, ac i gymharu a chyferbynnu'r gwahanol ymdriniaethau. Roedd y cyflwyniadau yn cael eu cywasgu i'r adegau rhwng sgyrsiau'r mudiad cartref a'r ymweliadau â'r sefydliadau. Nid oedd cyfle i un o'r cyfranogwr wneud cyflwyniad oherwydd cyfyngiadau amser. Teimlwyd y dylai fod sesiwn benodol wedi ei neilltuo ar gyfer y cyflwyniadau hyn, gyda chanllawiau clir ar hyd pob un. Byddai hynny wedi golygu y byddai pawb wedi cael cyfle i gyflwyno ac i gael trafodaeth grŵp. O ganlyniad, byddai hyn wedi galluogi i'r cyfranogwyr ystyried fwyfwy sut y gall bolisïau ac arferion gael eu trosglwyddo a'u datblygu mewn gwahanol rannau o Ewrop er mwyn creu ymdriniaeth gydlynol i integreiddio rhyngddiwylliannol.

> Teimlwyd mai iaith oedd y sialens mwyaf dybryd oedd yn wynebu mewnfudwyr, bod modd datlbygu'r syniad o'r dosbarth cysylltiol sy'n helpu'r plant i gynnwys y rhieni a'r teuluoedd hefyd.
>
> Gallai, a dylai, cydweithrediad rhwng gwahanol gyrff a systemau mewn gwahanol wledydd a llywodraethau gael ei ddatblygu i gynorthwyo symudiad pobl – mae Sbaen wedi cyflwyno cyfraith (2007) i annog hyfforddiant yng ngwledydd gwreiddiol y mewnfudwyr. Teimlwyd bod hyn yn ymdriniaeth ddefnyddiol a throsglwyddadwy wrth integreiddio'n llwyddiannus.

CYFLEOEDD RHYNGWEITHIO A THREFNIADAETH

Yn ogystal â chael cyfle i rannu enghreifftiau o'u gwaith a'u harferion, cafodd y cyfranogwyr sawl cyfle i rwydweithio yn ffurfiol ac yn anffurfiol, ymysg ei gilydd a chyda chynrychiolwyr y gwahanol fudiadau y buont yn ymweld â hwy. Trafodwyd nifer o syniadau am brosiectau posibl a chyfleodd i gydweithio yn y dyfodol:

- Mae Malgorzata Wrotkowska yn ystyried cydweithio gyda swyddfeydd llywodraethol yn Sbaen i drefnu teithiau cyfnewid ar gyfer myfyrwyr o Sbaen i Wlad Pwyl.
- Trafododd Borghild Drejer and Simonetta Leonardi y posibilrwydd o sefydlu partneriaeth rhwng ysgolion yn yr Eidal a Norwy.
- Mae gan Elizabeth Thomas a Päivi Mäki ddiddordeb yn ymdriniaeth Cymru a'r Ffindir o addysg datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.
- Roedd Elina Kumpina a Kurt-Olov Sjöström am edrych ar y gefnogaeth i Somaliaid yn y DU a Sweden o safbwynt oedolion sy'n dysgu.

Roedd maint y grŵp yn dda er mwyn galluogi i bobl wneud cysylltiadau a rhannu meddyliau a safbwyntiau. Roedd amrywiaeth dda o bobl o wahanol wledydd yn y grŵp – roedd yr aelodau'n hanu o bob cwr o Ewrop. Er bod amrywiaeth dda, roedd pobl o'r un gwledydd/ ardaloedd yn tueddu i aros gyda'i gilydd. Cafwyd amrywiaeth o gefndiroedd a swyddogaethau proffesiynol

hefyd. Ar y cyfan, roedd cydbwysedd dda yn y grŵp, ond roedd anghydbwysedd rhyw amlwg gydag ond un dyn. Nid oedd hyn yn broblem, ond gallasai fod wedi bod yn anodd iddo petai'r grŵp wedi bod yn wahanol.

Dymuna'r grŵp ddiolch i'r trefnwyr, yn enwedig Carolina Borrajo Villaverde a Leticia Rodriguez Gomez, am eu gwaith caled wrth drefnu'r ymweliad astudio ac am eu croeso cynnes i'r INEM ac i Madrid. Cawsom wybodaeth eglur am yr ymweliad cyn cyrraedd, a theimlodd y grŵp fod y gweithgareddau yn ystod y dydd yn ddiddorol iawn ac wedi eu trefnu'n drylwyr. Nodwyd bod ambell i ddigwyddiad neu gyflwyniad yn hirach na'r disgwyl. Roedd hi'n braf iawn cael cyfle i ymweld ag amgueddfa'r Prado a'r Thyssen ac i gael peth amser rhydd yn Madrid. Er hynny, gellid dadlau y byddai cael gweithgaredd wedi ei drefnu ar gyfer o leiaf un o'r nosweithiau, yn enwedig noson gyntaf yr ymweliad neu'r nos Sul pan gyrhaeddodd pawb y gwesty, wedi bod o gymorth i'r cyfranogwyr ddod i adnabod ei gilydd. Roedd trefniant anffurfiol i gwrdd a oedd o fudd i dorri'r garw, ond nid ymunodd pawb. Byddai hefyd wedi bod yn braf cael cyfle i gymdeithasu'n anffurfiol gyda'r trefnwyr.

AWGRYMIADAU

- Mwy o ymarfer a llai o theori
- Astudiaethau achos a rhyngweithio gyda phobl go iawn sy'n rhan o brosiect
- Cyfyngu ar amser cyflwyniadau ac areithiau, a chadw at yr amserlen
- Sesiynau byrrach pan fo angen cyfieithu
- Defnyddio 'iaith y gwaith' pan fo hynny'n bosibl
- Pawb yn y grŵp i fod yn ymrwymiedig i'r adroddiad terfynol, defnyddio unrhyw iaith Ewropeaidd, neu dderbyn adroddiadau unigol gan y cyfranogwyr i gyd yn lle adroddiad grŵp[1]
- Gweithgaredd/au gyda'r nos / diwylliannol ar gyfer y grŵp i gyd
- Coffi ar ddechrau pob dydd ac egwyl goffi/ toriad rheolaidd!

[1] Roedd cydlynu llunio'r adroddiad terfynol yn weddol anodd. Cafodd y sesiynau a neilltuwyd ar ei gyfer eu newid gan y trefnwyr, ac fe gymrodd y cyfranogwyr mai fi (fel yr unig siaradwr Saesneg mamiaith) fyddai'n gyfrifol am yr adroddiad. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Borghild Drejer a Päivi Mäki am eu cefnogaeth a'u cymorth wrth gywain y wybodaeth a llunio'r adroddiad terfynol. (Elizabeth Thomas, Mehefin 2008)

SYLWADAU CYFFREDINOL

Roedd yn ymweliad astudio defnyddiol ac fe ges i rai syniadau newydd y gallaf eu defnyddio yn fy ngwaith bob dydd

ymweliad astudio ardderchog a chwmni gwych, mi wnes i fwynhau yn fawr iawn. Mae Madrid yn le prydferth dros ben a diolch arbennig i Carolina a Leticia

Daethom i'r lleoliad diwylliannol unigryw hwn gyda chefndiroedd a safbwyntiau gwahanol, ac eto roedd pawb yn dod ymlaen yn dda ac wedi gwneud ffrindiau ardderchog.

Rwyf wedi dysgu am y gwahanol systemau addysg sy'n bodoli mewn gwledydd Ewropeaidd eraill, a beth sy'n gweithio mewn cyd-destunau eraill a beth allai gael ei addasu ar gyfer fy nghyd-destun i

Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig iawn i gael y math yma o brofiad achos rydym yn gallu gweld a byw y pethau tebyg a'r gwahaniaethau, a chael llawer o syniadau newydd ar gyfer gwahanol feysydd ein gwaith

roedd hi'n bwysig dysgu am system mewnfudo Sbaen, i rannu arferion da ac i wneud ffrindiau a sefydlu partneriaethau o fewn y grŵp

fe gwrddom ar y dydd Sul yn ddieithriaid, ond bellach rydym yn ffrindiau a gallwn gydweithio

ymweliad defnyddiol dros ben a oedd wedi ei drefnu'n dda. Fe roddodd gyfleoedd i ni ddatblygu syniadau ac arferion newydd

cafodd ei drefnu'n dda gan ein ffrindiau o Sbaen ac fe gawsom groeso

mae gennym broblem,
mae gennym brosiect!